



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig

Diweddariad o'r Cynllun Cyflawni 2018-2021

Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig – diweddariad o'r Cynllun Cyflawni 2018

1. Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig ym mis Tachwedd 2016. Cafodd ei ddatblygu mewn ymateb i'r blaenoriaethau y mae pobl ag awtistiaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr wedi dweud sy'n bwysig iddyn nhw. Cyhoeddwyd Cynllun Cyflawni ategol hefyd yn 2016. Mae'r diweddariad hwn i'r cynllun cyflawni yn egluro beth fydd yn cael ei wneud i wella gwasanaethau awtistiaeth, gan adlewyrchu'r adborth parhaus sy'n dod i law gan bobl awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae'r ymrwymadau newydd i'w gweld mewn coch.

2. Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol cyntaf y Cynllun Gweithredu Strategol ym mis Mehefin 2018, ac fe fyddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd wrth gyflawni'r ymrwymadau polisi sydd eisoes yn bodoli a'r rhai newydd drwy gyhoeddi diweddariadau blynyddol.

Asesiad a Diagnosis			
Beth rydym ni am ei gyflawni?	Beth fyddwn ni'n ei wneud?	Sut fyddwn ni'n gwybod?	Pwy sy'n rhan o'r gwaith?
Mae plant, pobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth yn gallu cael gafael yn brydlon ar wasanaethau atgyfeirio, asesu ac ôl-ddiagnosis sy'n diwallu eu hanghenion	Sicrhau gwelliannau i wasanaethau asesu a diagnosis plant. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno llwybr asesu diagnostig safonol cenedlaethol i sicrhau cysondeb.	Mae llwybrau gofal a ddatblygwyd gan fyrddau iechyd ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol yn cael eu cyflwyno ledled Cymru o fis Tachwedd 2016 ymlaen	Llywodraeth Cymru – Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc Byrddau Iechyd Lleol
	Gwella'r amser o ran cael gafael ar wasanaethau i blant a phobl ifanc, gyda tharged amser aros o 26 wythnos o'r atgyfeiriad i'r apwyntiad asesu cyntaf	Byrddau iechyd yn adrodd eu bod yn cyflawni'r targed amser aros o 26 wythnos o fis Tachwedd 2017 ymlaen	Byrddau Iechyd Lleol
	Sicrhau bod cynnydd ac amser asesu a diagnosis yn cael eu	Diweddarau data amseroedd aros bob chwarter i ddangos a	Llywodraeth Cymru

	<p>monitro'n barhaus. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn systemau cynllunio a rheoli perfformiad ffurfiol Byrddau Iechyd.</p>	<p>yw'r targedau amseroedd aros yn cael eu cyflawni</p> <p>Teuluoedd a gofalwyr yn dweud eu bod ar y llwybr safonol o fewn 26 wythnos i gael eu hatgyfeirio</p>	<p>Byrddau Iechyd Lleol</p> <p>Gwerthusiad annibynnol o'r Cynllun Gweithredu Strategol a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig</p>
	<p>Parhau i sicrhau gwelliannau i wasanaethau diagnostig oedolion drwy'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu model cenedlaethol a fydd yn cael ei weithredu ledled Cymru • Monitro ac adrodd ar gynnydd yn barhaus yn erbyn y safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt. • Bydd gofyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol adrodd ar y cynnydd 	<p>Byrddau partneriaeth rhanbarthol yn adrodd am gynnydd yn y gwaith o gyflwyno'r gwasanaeth diagnostig i oedolion o fis Ebrill 2016 ymlaen</p> <p>Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn adrodd bod asesiad diagnostig oedolion yn bodloni'r safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt</p> <p>Pobl awtistig yn adrodd eu bod yn fodlon o ran gallu cael gafael ar y gwasanaeth asesu a diagnostig newydd i oedolion</p>	<p>Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol</p> <p>Byrddau Iechyd Lleol</p> <p>Awdurdodau Lleol</p> <p>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</p>

Mynd i'r afael ag anghenion cymorth

Beth rydym ni am ei gyflawni?	Beth fyddwn ni'n ei wneud?	Sut fyddwn ni'n gwybod?	Pwy sy'n rhan o'r gwaith?
<p>Gall plant, pobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth, a'u teuluoedd a'u gofalwyr gael gafael ar wasanaethau cynghori ac ataliol i ddiwallu angen sydd heb ei ddiwallu mewn addysg, cyflogaeth ac iechyd a gofal cymdeithasol</p>	<p>Cwblhau ein rhaglen o ddiwygiadau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, fel y gwelir yn y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynlys Addysg 2017 a'r Cod cysylltiedig.</p> <p>Cyflawni Cod Ymarfer ALNET erbyn 2019.</p> <p>Cychwyn cyflwyno system newydd ALN yn 2020.</p>	<p>Cyhoeddi Cod Ymarfer ALNET drafft fel testun ymgynghoriad yn ystod 2018, y Cod terfynol i'w gyhoeddi yn 2019.</p> <p>Cyflwyno'r system ALN newydd ar draws Cymru o 2020 ymlaen, i gymryd lle'r system Anghenion Addysgol Arbennig yn llwyr erbyn 2023.</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p>
	<p>Datblygu a Chyhoeddi Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Deddf y GIG mewn partneriaeth â rhanddeiliaid gan gynnwys pobl ag awtistiaeth a'u rhieni a'u gofalwyr.</p>	<p>Cyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod Ymarfer drafft.</p> <p>Cyhoeddi'r Cod drafft cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn yn 2021.</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p> <p>Y Grŵp Cynghori ar Weithredu</p>
	<p>Parhau i ddatblygu a chyflwyno ein rhaglen 'Dysgu gydag</p>	<p>Y rhaglen ysgolion cynradd i'w chyflwyno ym mhob awdurdod</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p>

	<p>Awtistiaeth' i wella'r cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc yn y blynyddoedd cynnar, addysg gynradd, addysg uwchradd ac addysg bellach ac mewn sectorau dysgu yn seiliedig ar waith</p>	<p>Ileol o 2016 ymlaen.</p> <p>Y rhaglenni blynyddoedd cynnar ac ysgolion uwchradd i'w cyflwyno o 2017 ymlaen a rhaglenni addysg bellach a dysgu yn seiliedig ar waith i'w cyflwyno ledled Cymru o 2019 ymlaen.</p>	<p>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</p> <p>Y Grŵp Cynggori ar Weithredu</p>
	<p>Gwella cyfleoedd cyflogaeth i bobl awtistig. Mae hyn yn cynnwys monitro'r gwaith o ddarparu rhaglen Ar y Blaen Dau i gefnogi cyflogaeth hirdymor i bobl ifanc ag anawsterau neu anabledau dysgu gan gynnwys ASD</p>	<p>Prosiect Ar y Blaen Dau yn gwneud cynnydd da o ran y canlyniadau y cytunwyd arnynt</p>	<p>Prosiect Ar y Blaen Dau</p>
	<p>Llywodraeth Cymru i gymryd camau i ddod yn gyflogwr ystyriol o awtistiaeth drwy gymryd rhan yn y Rhaglen Cadarnhaol am Weithio gydag Awtistiaeth</p>	<p>Llywodraeth Cymru i geisio sicrhau achrediad yn y Siarter Cadarnhaol am Awtistiaeth, rydym yn gweithio gyda'r tîm CLILC i ddatblygu rhaglen gweithio gydag awtistiaeth a chael achrediad i'r Siarter Cadarnhaol am Awtistiaeth.</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p> <p>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</p>
	<p>Gweithio gyda sefydliadau ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth ac iddynt ddod yn amgylcheddau gwaith ystyriol o awtistiaeth. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo'r Rhaglen Cadarnhaol am</p>	<p>Nifer o sefydliadau/cyflogwyr ledled Cymru yn cymryd rhan yn y Rhaglen Gweithio gydag Awtistiaeth ac yn cyflawni'r Siarter</p>	<p>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</p> <p>Cyflogwyr</p>

	Weithio gydag Awtistiaeth		
	<p>Darparu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol. Bydd yn cael ei gyflwyno o fis Ebrill 2016 dros gyfnod o dair blynedd ac yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu gwasanaeth asesu diagnostig safonol i oedolion • Darparu cyngor a chymorth i bobl awtistig, yn cynnwys eu teuluoedd a'u gofalwyr • Datblygu pecynnau hyfforddi a chymorth pellach i weithwyr proffesiynol 	<p>Bydd y gwasanaeth integredig wedi'i ddarparu a'i weithredu ym mhob rhanbarth yng Nghymru erbyn mis Mawrth 2019</p> <p>Oedolion ag awtistiaeth yn dweud eu bod yn fodlon o ran gallu cael gafael ar wasanaethau diagnostig</p> <p>Pobl awtistig a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn dweud eu bod yn fodlon â'r gwasanaethau sydd ar gael gan y gwasanaeth integredig</p> <p>Gweithwyr proffesiynol yn adrodd bod y pecynnau cymorth hyfforddiant sydd ar gael yn cael eu defnyddio a'u bod yn fodlon â nhw</p>	<p>Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol</p> <p>Byrddau Iechyd Lleol</p> <p>Awdurdodau Lleol</p> <p>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</p> <p>Gwerthusiad annibynnol o'r Cynllun Strategol a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig</p>

Codi Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth a Hyfforddiant

Beth rydym ni am ei gyflawni?	Beth fyddwn ni'n ei wneud?	Sut fyddwn ni'n gwybod?	Pwy sy'n rhan o'r gwaith?
<p>Pobl awtistig a'u teuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn dweud eu bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth, cyngor a hyfforddiant o ansawdd dda sy'n diwallu eu hanghenion</p>	<p>Sicrhau bod pobl awtistig a'u teuluoedd a'u gofalwyr, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol, yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael ar wefan ASDInfoWales.</p> <p>Datblygu strategaeth gyfathrebu yn nodi camau gweithredu penodol erbyn diwedd Ionawr 2017</p>	<p>Y strategaeth gyfathrebu wedi'i chwblhau erbyn Ionawr 2017 a'i gweithredu</p> <p>Pobl awtistig a'u teuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn dweud eu bod yn fwy ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael ar wefan ASDInfoWales</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p> <p>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</p>
	<p>Ymgyrch codi ymwybyddiaeth</p> <p>Gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys pobl awtistig a'u teuluoedd a'u gofalwyr, i ddatblygu dull gweithredu ar y cyd i gyflwyno ymgyrch codi ymwybyddiaeth am awtistiaeth. Bydd hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth am wasanaethau a'r adnoddau sydd ar gael, fel y rhai ar wefan ASDInfoWales</p>	<p>Pobl awtistig a'u teuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn dweud eu bod yn fwy ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael yn eu hardal a'r adnoddau sydd ar gael ar wefan ASDInfoWales</p>	<p>Pobl awtistig a'u teuluoedd/gofalwyr</p> <p>Llywodraeth Cymru</p> <p>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</p> <p>Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig</p> <p>Cymunedau</p>
	<p>Parhau i ddatblygu gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer meysydd blaenoriaeth a nodwyd, i fod ar gael am ddim</p>	<p>Adroddiad diweddarau blynyddol gan Swyddog Arweiniol ASD</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p> <p>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</p>

	ar wefan ASDinfoWales. Bydd meysydd blaenoriaeth yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n flynyddol	Pobl awtistig, eu teuluoedd a'u gofawlywyr yn dweud eu bod yn fodlon â'r wybodaeth a'r adnoddau sydd ar gael	Gwerthusiad annibynnol o'r Cynllun Gweithredu Strategol a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig
	Datblygu a darparu adnoddau a deunydd hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth a darparu cymorth i weithwyr proffesiynol ac eraill sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion ag awtistiaeth.	Adroddiad diweddarau blynyddol gan Swyddogion Arweiniol ASD Gweithwyr proffesiynol yn dweud eu bod yn fodlon â'r deunyddiau hyfforddiant a'r adnoddau sydd ar gael	Llywodraeth Cymru Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Gwerthusiad annibynnol o'r Cynllun Gweithredu Strategol a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig
	Cydweithio â sefydliadau eraill sy'n ymdrin â materion nad ydynt wedi'u datganoli i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth. Bydd y rhain yn cynnwys yr heddlu, y gwasanaeth tân, y llysoedd a Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr	Sefydliadau heb eu datganoli yn cymryd rhan yng ngweithgareddau a hyfforddiant Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o anghenion pobl awtistig sy'n derbyn eu cymorth	Llywodraeth Cymru Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Sefydliadau heb eu datganoli
	Diweddarau ac ehangu canllawiau i wasanaethau tai ar gefnogi pobl ag awtistiaeth	Datblygu a chyhoeddi Canllawiau Tai newydd erbyn 2019	Llywodraeth Cymru Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
	Parhau i gefnogi'r Swyddogion Arweiniol Cenedlaethol ar ASD a'r Tîm Datblygu i ddarparu cyngor ac arweiniad arbenigol ar awtistiaeth i Lywodraeth	Adroddiad diweddarau blynyddol gan Swyddogion Arweiniol ASD	Llywodraeth Cymru Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

	Cymru, grwpiau proffesiynol a rhanddeiliaid		
--	---	--	--

Cyflawni'r Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu

Beth rydym ni am ei gyflawni?	Beth fyddwn ni'n ei wneud?	Sut fyddwn ni'n gwybod?	Pwy sy'n rhan o'r gwaith?
<p>Bod plant, pobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn cael eu cynnwys a chyfrannu at y gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol</p>	<p>Parhau i helpu'r grŵp cyngori ar weithredu i fonitro cynnydd a'r gwaith o gyflawni camau gweithredu penodol yn y Cynllun Gweithredu a'r Cynllun Cyflawni.</p>	<p>Mae'r Grŵp Cyngori ar Weithredu yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn • Mae'r grŵp yn ymwneud ac yn ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid • Y grŵp cyngori yn cytuno ar gynllun gwaith i gefnogi'r broses o gyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol 	<p>Llywodraeth Cymru</p> <p>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</p> <p>Sefydliadau trydydd sector a grwpiau rhanddeiliaid</p>
	<p>Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd y camau gweithredu penodol yn y Cynllun Gweithredu Strategol a'r Cynllun Cyflawni. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad ac amseroedd aros ar gyfer asesu a diagnosis</p>	<p>Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y Cynllun Cyflawni bob blwyddyn</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p>
	<p>Sicrhau bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn adrodd ar gynnydd y camau gweithredu penodol yn y Cynllun Gweithredu Strategol a'r Cynllun Cyflawni. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad ac amseroedd</p>	<p>Adroddiadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gynnydd yn dangos cynnydd o ran cyflawni'r camau penodol gan gynnwys amseroedd aros a diagnosis</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p> <p>Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol</p> <p>Y Grŵp Cyngori ar Weithredu</p>

	aros ar gyfer asesu a diagnosis		
	Casglu gwybodaeth am nifer y bobl awtistig sydd â chynllun gofal a chymorth. Bydd hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o drefn newydd casglu data gwasanaethau cymdeithasol o fis Ebrill 2017 ymlaen.	Bydd y data newydd ar gael erbyn mis Chwefror 2019	Llywodraeth Cymru Y Grŵp Cyngori ar Weithredu
	Gweithio gyda'n partneriaid i weld sut yr ydym yn casglu data am ganlyniadau ystyrion er mwyn cael gwybod beth yw ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu, a gweld lle mae bylchau o hyd yn y gefnogaeth.	Datblygu system beilot i gasglu data erbyn mis Mawrth 2019.	Llywodraeth Cymru Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Byrddau Iechyd Lleol
	Sefydlu cofrestr meddyg teulu ar gyfer awtistiaeth	Datblygu'r gofrestr yn ystod tymor y Cynulliad hwn.	Llywodraeth Cymru Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
	Cynnal gwerthusiad o'r diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol	Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r adroddiad gwerthuso terfynol erbyn mis Mawrth 2019.	Llywodraeth Cymru Y Grŵp Cyngori ar Weithredu
	Monitro gweithrediad y gofynion deddfwriaethol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	Gwybodaeth fonitro am weithrediad y gofynion deddfwriaethol i'w chynnwys yn yr adroddiad diweddar	Llywodraeth Cymru

	(Cymru) ac adolygu'r angen am ddeddfwriaeth bellach ar awtistiaeth	blynyddol ar y Cynllun Gweithredu Strategol	
--	--	---	--